

Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Porthmadog a Penrhyndeudraeth



Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.
- 1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.
- 1.3 Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:
 - Beth sy'n dda am yr ardal?
 - Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
 - Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynndi?
- 1.4 Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.
- 1.5 Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda 7 o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol ardal Porthmadog a Penrhyndeudraeth.

2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal **Porthmadog a Penrhyndeudraeth** yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai	5
Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad	4
Yr iaith / diwylliant Gymraeg	3
Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir	2
Y Rheilffordd	2
Ysgol Gynradd dda	2
Ardal ddiogel a saff	1
Treftadaeth a hanes yr ardal	1
Hafod y Gest i bobl hŷn	1
Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr	1
Stryd Fawr lydan	1
Harbwr	1
Busnesau lleol a chyfleoedd y parciau busnes	1
Safle gwyrdd yn hen waith Cooke's. (Y Dref Werdd – Hwb Deudraeth)	1
Y Clwb pêl-droed	1
Neuadd Gymunedol sy'n addas i ofynion yr ardal	1
Y gymuned	1
Pobl ifanc yn dychwelyd i fyw yn yr ardal	1
Potensial trafndiaeth werdd	1

3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau **Ardal Porthmadog a Penrhyndeudraeth** yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol	4
Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal	4
Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol	4
Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig	4
Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser	2
Problemau ac effaith gor-dwristiaeth	2
Yr iaith yn colli tir	2
Pryderon am ddarpariaeth iechyd a gofal	2
Diffyg darpariaeth i bobl ifanc	2
Diffyg llwybrau cerdded o safon / diogel	2
Llifogydd a thiroedd gwlyb	2
Diffyg toiledau cyhoeddus	2
Safon gwasanaethau cymorth yr awdurdod lleol	1
Diffyg cwmni cydweithredol i yrru newidiadau e.e. Cwmni Bro Stiniog	1
Dim canolfan gymunedol	1
Effaith Siopau ar-lein ar fusnesau lleol	1
Darpariaeth addysg uwch	1
Problemau parcio	1
Dim digon yn cael ei wneud am ynni cynaliadwy	1
Diffyg toiledau cyhoeddus	1
Pryderon am atomfa Trawsfynydd	1
Cyngor Gwynedd ddim yn taclo problemau tai gwag	1
Tlodi dal i fodoli	1

4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cyngorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Porthmadog a Penrhyndeudraeth am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

Thema	Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb
Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol	5
Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol	4
Rhagor o adnoddau iechyd, llesiant a gofal	4
Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, di-blastig, pwyntiau gwefru	3
Creu gwaith a swyddi gwerth uchel	2
Rheolaeth ar broblemau traffig	2
Darparu rhagor o gyfleusterau a sgiliau i bobl ifanc	1
Cwblhau gwelliannau i'r Cob Crwn a Cob Mawr	1
Prosiectau i ddod ac arian i mewn yn lleol	1
Cynhyrchu bwyd o safon sy'n gynaliadwy ac yn lleol	1
Angen delio gyda'r effaith poblogaeth yn mynd yn hyn	1
Cynnal deialog rhwng Cyngorau Cymuned yn arwain at ddatblygiadau positif e.e. llwybr beic rhwng Llanfrothen a Penrhyndeudraeth	1
Ysgol gynradd dal yn hyfyw	1
Cyfleoedd i ymwelwyr a mewnfudwyr ddysgu Cymraeg	1

5. Cwestiynau ychwanegol

5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Ardal **Porthmadog a Penrhyndeudraeth**:

- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd
- Arloesi Gwynedd Wledig/Menter Môn
- Age Cymru Gwynedd a Môn
- Ffermwyr Ifanc
- Merched y Wawr
- Sefydliad y Merched
- Ffrindiau Gardd Natur
- Deudraeth Cyf
- Y Dref Werdd – Hwb Deudraeth
- Sefydliadau addysg
- Cyngorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Adra Tai
- Grŵp Cynefin,
- Fforwm Busnes Criccieth
- U3A
- Eglwysi a Chapeli
- Criccieth yn ei Blodau
- Caru Port
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri

5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Ardal **Porthmadog a Penrhyndeudraeth**:

- Mae gan Gyngor Tref Criccieth Gynllun Cymunedol sydd wedi ei gymeradwyo Mawrth 2019 yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr a gweithdai gyda'r gymuned yn 2018.

5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Ardal **Porthmadog a Penrhyndeudraeth**:

- Rydym yn siomedig iawn nad yw Cyngor Gwynedd wedi cynnwys Criccieth sy'n un o'r trefi hynaf yng Nghymru gyda chastell a adeiladwyd gan Dywysog Cymru gyntaf - Llywelyn yn y teitl rhanbarthol ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.
- Nid wyf yn deall 'Sgôr ar gyfer agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch (%)'. O ystyried yr amgylchedd a'n awyrgylch o fod ger yr arfordir ac yn agos i fynyddoedd Eryri byddai disgwyl ein hardal sgorio yn uchel yn y mesur hwn, ond efallai nad wyf yn dehongli'r wybodaeth yn gywir.
- Nid oes unrhyw sylw yn y cyflwyniad ynglŷn ag effaith newid hinsawdd yn y degawdau i ddod. Pa effeithiau gellir ei ddisgwyl i'n cymuned e.e. llifogydd, stormydd, sychder, gordwristiaeth, straen iechyd meddwl.

- Fe dynnodd Cyfeillion Croesor sylw at y ffaith eu bod nhw yn gweld eu hunain yn uniaethu'n fwy hefo bro Blaenau Ffestiniog oherwydd eu lleoliad. Mae'r pwynt hwn wedi ei wneud o'r blaen ac yn un y dylid ei ystyried wrth lunio cynllun ardal Porthmadog a Phenrhyndeudraeth. Nid ydi ffiniau'r ymgynghoriad Ardal Ni 2035 yn plethu'n naturiol hefo'r ffordd maen nhw'n gweld eu gwaith nhw yn datblygu yng Nghroesor i'r dyfodol.